E-lawlyfr 1
SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 3

# *Defnyddio refferenda yng Nghymru*

## Llawlyfr Gwaith

# LLAWLYFR GWAITH

## CWESTIWN 1

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw'r gwahaniaeth rhwng democratiaeth uniongyrchol a democratiaeth gynrychioliadol?

## CWESTIWN 2

### Refferenda yn y DU 1973 – 2016

Cwblhewch y tabl isod sy'n dangos manylion y refferenda sydd wedi eu cynnal yn y DU rhwng 1973 a 2016.

| DYDDIAD | PWY BLEIDLEISIODD? | CWESTIWN | IE % | NA % | CANRAN BLEIDLEISIO (*TURNOUT*)% |
|---|---|---|---|---|---|
| 1973 (Mawrth) | Gogledd Iwerddon | Ddylai Gogledd Iwerddon aros yn rhan o'r DU? | 98.9 | 1.1 | 58.1 |
| 1975 (Mehefin) | Y DU | Ddylai'r DU aros yn y Gymuned Economaidd Ewropeaidd? | 67.2 | 32.8 | 63.2 |
| 1979 (Mawrth) | Yr Alban | A ddylid cael Senedd i'r Alban? | 51.6 | 48.4 | 63.8 |
| 1979 (Mawrth) | Cymru | A ddylid cael Senedd i Gymru? | 20.3 | 79.7 | 58.3 |
| 1997 (Medi) | Yr Alban | A ddylid cael Senedd i'r Alban? Senedd gyda phwerau trethu amrywiol? | 74.3 63.5 | 25.7 36.5 | 60.4 |
| 1997 (Medi) | Cymru | A ddylid cael Cynulliad i Gymru? | 50.3 | 49.7 | 50.1 |
| 1998 (Mai) | Llundain | A ddylid cael Maer Llundain a Chynulliad i Lundain? | 72.0 | 28.0 | 34.0 |
| 1998 (Mai) | Gogledd Iwerddon | Cymeradwyo Cytundeb Gwener y Groglith | 71.1 | 28.9 | 81.0 |
| 2004 (Tach) | Gogledd Ddwyrain Lloegr | A ddylid cael cynulliad rhanbarthol i'r gogledd ddwyrain? | 22.0 | 78.0 | 48.0 |
| Mawrth 2011 | Cymru | | | | |
| Mai 2011 | Y DU | | | | |

| DYDDIAD | PWY BLEIDLEISIODD? | CWESTIWN | IE % | NA % | CANRAN BLEIDLEISIO (*TURNOUT*)% |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2014 | Alban | | | | |
| Mehefin 2016 | Y DU | | | | |

## CWESTIWN 3
## Dadleuon o blaid ac yn erbyn defnyddio refferenda

i: Trefnwch a dadansoddwch y dadleuon yn y tabl isod o blaid ac yn erbyn defnyddio refferenda.

ii: Gwerthuswch nhw gan eu graddio o ran pa rai gredwch chi yw'r dadleuon cryfaf i'r gwannaf er mwyn cefnogi manteision ac anfanteision defnyddio refferenda.

| | | |
|---|---|---|
| Mae refferendwm yn ddemocrataidd ac mae'n fodd o achub democratiaeth ymysg pobl sydd wedi colli ffydd yn y system wleidyddol. Mewn amgylchiadau pan fo gwleidyddion yn ymddangos yn bell oddi wrth eu hetholwyr, mae refferendwm yn gallu adnewyddu ffydd yn y broses ddemocrataidd.<br><br>i:<br><br>ii: | Cyn pleidleisio ar ddeddf, mae Aelodau'r Tŷ'r Cyffredin yn gwrando ar y dadleuon, ac yn ystyried y data a'r ffeithiau a nhw felly sydd yn y lle gorau i wneud penderfyniadau ar y materion dan sylw.<br><br>i:<br><br>ii: | Gwleidyddiaeth Gynrychioliadol yw natur y trefniadau yn y Deyrnas Unedig nid democratiaeth uniongyrchol. Aelodau Seneddol ddylai arwain y wlad ar y materion dan sylw.<br><br>i:<br><br>ii: |
| Mae refferenda yn gymhleth; mae'n anodd gofyn cwestiynau technegol ar faterion cymhleth fel 'A ddylai Prydain ddod yn aelod o barth yr Ewro / '*Eurozone*?'<br><br>i:<br><br>ii: | Maent yn annog cyfranogi yn y system wleidyddol. Mewn nifer o wledydd ble mae cyfranogi'n digwydd ar ddiwrnod etholiad yn unig, mae refferendwm yn ffordd o sbarduno diddordeb. Yn Nenmarc a'r Swistir mae cefnogwyr refferenda yn dweud bod refferenda wedi helpu i gynyddu dealltwriaeth dinasyddion o wahanol bynciau.<br><br>i:<br><br>ii: | Er bod refferenda yn fodd o gadw barn y llywodraeth a barn y cyhoedd yn gytûn, dim ond mynegi barn y cyhoedd ar un foment arbennig a wneir. Os yw llywodraeth i fod yn barhaol atebol i'r etholwyr, yna dylid defnyddio refferenda yn gyson. Nid yw hyn yn ymarferol.<br><br>i:<br><br>ii: |

| | | |
|---|---|---|
| Mae llawer yn dibynnu ar y cwestiwn a ofynnir. Wrth fframio cwestiwn mewn ffordd arbennig, mae'n bosib na fydd y canlyniad yn adlewyrchu barn y cyhoedd.<br><br>i:<br><br>ii: | Mae modd codi ymwybyddiaeth etholwyr o faterion unigol. Maent yn addysgu pobl sy'n cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon.<br><br>i:<br><br>ii: | Gall refferenda fod yn briodol i ddelio â materion cyfansoddiadol ond nid ydynt yn addas i ddelio â materion cymdeithasol/moesol. Ar faterion fel tor-cyfraith a mewnfudwyr, nid yw refferenda yn addas gan fod y rhain yn faterion lle mae emosiwn yn gallu dylanwadu'n fawr ar farn y cyhoedd.<br><br>i:<br><br>ii: |
| Fe allai pobl bleidleisio am 'y rhesymau anghywir.' Fe all ystyriaethau amherthnasol ddylanwadu ar eu dewis. Yn 1979, dylanwadodd amhoblogrwydd y Blaid Lafur ar y bleidlais aflwyddiannus ar ddatganoli. Yn ôl rhai sylwebwyr, yn refferendwm Ffrainc ar y Cyfansoddiad Ewropeaidd yn 2005, y prif reswm am bleidlais 'Na' oedd record economaidd wael y llywodraeth. Ni wnaeth poblogrwydd Nick Clegg (arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y pryd) gynorthwyo'r ymdrechion dros Bleidlais Amgen yn y refferendwm ar newid y system etholiadol.<br><br>i:<br><br>ii: | Mae ymgyrchoedd yn gallu bod yn ddrud ac felly'n ffafrio grwpiau sydd wedi eu hariannu'n dda. Mae arian yn rhy ganolog yn y broses. Gall busnesau ddylanwadu ar y canlyniad er mwyn eu buddiannau eu hunain. Yn 1975, gwariodd y cwmnïau gweithgynhyrchu yn helaeth o blaid Ewrop. Adeg y refferendwm ar y Bleidlais Amgen yn 2011, cyhuddodd Chris Huhne yr Ymgyrch 'Na o 'Goebbels-like propaganda.'<br><br>i:<br><br>ii: | Mae'n ffordd benodol o bleidleisio. Pan mae pobl yn pleidleisio ar faniffesto plaid ar ddiwrnod etholiad, nid yw'n glir pa ran o'r maniffesto sydd wedi denu pleidlais yr etholwyr. Gall refferendwm gasglu barn glir y wlad ar un mater.<br><br>i:<br><br>ii: |
| Mae refferendwm yn ffordd o benderfynu'n gymharol derfynol ar fater arbennig. Yn 1979, cafwyd dyfarniad ar ddatganoli yn y refferendwm a pharhaodd am 20 mlynedd.<br><br>i:<br><br>ii: | Mae refferendwm yn gallu cryfhau statws y llywodraeth wrth ddelio â materion anodd. Mae'n gallu cael ei ddefnyddio pan fo mater wedi cyrraedd man lle nad oes modd cytuno. Yn 1975, roedd hi'n ddefnyddiol i Harold Wilson allu trosglwyddo'r penderfyniad ynghylch 'Prydain – mewn neu allan o Ewrop?' i'r bobl fel modd o osgoi rhwyg o fewn ei blaid.<br><br>i:<br><br>ii: | Guardian, 4.3.1993: '*Britain suffers from an enormous democratic deficit and imaginative means have to be sought to redress the imbalance… Referendums will generate urgent civic discussion which will never take place with such purpose in any other way.*'<br><br>i:<br><br>ii: |

## CWESTIWN 4
## Y refferendwm ar ddatganoli i Gymru 1997

> 'Yn 1996, rhoddodd yr arweinydd Llafur, Tony Blair, wybod i Ron Davies am benderfyniad i addo i gynnal refferendwm ar argymhellion y blaid ar gyfer datganoli i'r Alban. Yr amcan ehangach oedd niwtraleiddio rhai o brif ddadleuon y Ceidwadwyr yn erbyn Llafur yn yr etholiad cyffredinol nesaf… ceisiodd Llafur dynnu datganoli a'r syniad o aelodaeth y DU o'r Ewro allan o'r drafodaeth etholiadol drwy addo refferendwm ôl-etholiadol ar y ddau fater. Ond nid oedd Cymru yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.
>
> Creodd hyn broblem i Ron Davies. Cyn hyn, roedd ei holl strategaeth er mwyn adfywio'r posibiliad o ddatganoli wedi canolbwyntio ar ennill y ddadl oddi fewn i'r Blaid Lafur… Nawr, byddai'n rhaid ennill refferendwm: un lle nad oedd unrhyw waith paratoadol wedi ei wneud, a lle na fyddai braidd dim gwaith paratoi yn cael ei wneud tan ar ôl yr etholiad cyffredinol.
>
> Roedd y refferendwm ar ddatganoli ym 1997 felly, unwaith eto, wedi ei gynnal o ganlyniad i gymhelliant tactegol yn hytrach nag un egwyddorol.'
>
> (Cyfieithiad o ddarnau o 'Wales says Yes' tudalennau 15-19, Wyn Jones, R. a Scully R. (2012). *Wales Says Yes: Devolution and the 2011 Welsh Referendum* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

i: Darllenwch y darn uchod ar refferendwm 1997 yng Nghymru.

ii: Beth mae'n ei ddangos ynghylch defnyddio refferenda?


Canlyniad y refferendwm oedd:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid sefydlu Cynulliad i Gymru **50.3 %** | Yn erbyn sefydlu Cynulliad i Gymru **49.7%** | Canran bleidleisio **50.1%** |

iii: Pa faterion y cyfeirir atynt yn y darn uchod sy'n ein cynorthwyo i ddeall y canlyniad?

iv: Ymchwiliwch ymhellach i'r refferenda ar ddatganoli yng Nghymru a'r Alban yn 1997. Beth sy'n debyg ac yn wahanol yn yr amgylchiadau a'r canlyniad yn y ddau achos? Gallech lunio tabl o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt i gynorthwyo i asesu eu heffaith ar y canlyniad.

Canlyniad Refferendwm Datganoli i Gymru 1997: **Pleidlais o blaid** – gwyrdd : **Pleidlais yn erbyn** – glas



## CWESTIWN 5
## Y refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru yn 2011

Edrychwch ar y wybodaeth ynghylch y refferendwm ar ddatganoli yn 2011 yng Nghymru yn y Llawlyfr Gwaith. Aseswch a yw'r wybodaeth yn cyd-fynd â manteision neu anfanteision refferenda fel amlinellwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi sydd wedi eu cynnwys yma:


| NODWEDDION POSITIF/ MANTEISION | NODWEDDION NEGYDDOL / ANFANTEISION |
|---|---|
| : Cryfhau'r broses ddemocrataidd<br>: Bod yn arf i ymsefydlu<br>: Datrys / setlo mater<br>: Hybu ymwneud dinasyddion<br>: Hyrwyddo addysg pleidleiswyr<br>: Pleidleiswyr yn gallu dod i farn resymegol<br>: Yn boblogaidd gyda'r pleidleiswyr<br>: Ategu at ddemocratiaeth gynrychioliadol | : Dyfais dactegol<br>: Dominyddu gan grwpiau elitaidd<br>: Gallu cael effaith negyddol ar grwpiau lleiafrifol<br>: Yn ddyfais geidwadol<br>: Ddim yn setlo mater<br>: Methu dygymod â materion cymhleth<br>: Tueddu i beidio â chanolbwyntio ar y mater allweddol dan sylw<br>: Ychydig o ddiddordeb mae pleidleiswyr yn tueddu i'w ddangos mewn cyfranogi mewn refferenda<br>: Yn gostus<br>: Tanseilio democratiaeth gynrychioliadol |

**CWESTIWN 6**
**Gwerthuso'r Refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd.**

Ceir yma rai o'r prif ffeithiau am ganlyniad Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2016.

i: Ymchwiliwch ymhellach i'r refferendwm hwn.

ii: Edrychwch am wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r manteision neu'r anfanteision a gysylltir gyda refferenda yn y tabl uchod.



**Cwestiwn Refferendwm**:
"***A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?***"

**Canlyniad Cymru**:
O blaid gadael yr UE: **52.5%**
O blaid aros yn yr UE: **47.5%**

**Canlyniad ar draws y Deyrnas Unedig**:
O blaid gadael yr UE: **51.9%**
O blaid aros yn yr UE: **48.1%**

(Maint y bleidlais: **72.2%**)

**CWESTIWN 7**

Gan ddefnyddio tystiolaeth i gadarnhau eich safbwyntiau, eglurwch sut mae'n bosibl beirniadu refferenda.

**CWESTIWN 8**

Aseswch yn feirniadol y dadleuon o blaid ac yn erbyn defnyddio refferenda yn amlach yn y DU.